

# AMGUEDDFEYDD YN NEWID BYWYDAU

Cymru

Museums Association

# RHAGAIR

## Mae ymrwymiad pawb ohonom i ymgyrch Amgueddfeydd yn Newid Bywydau a'n hangerdd dros yr ymgyrch yn bwysicach yn awr nag erioed.

A ninnau'n dal mewn cyfnod o ansicrwydd, ochr yn ochr â'r anghydraddoldebau a'r rhaniadau sydd mor gyffredin, mae mwy a mwy o amgueddfeydd, bach a mawr, sydd â gwahanol gynulleidfaoedd a dulliau llywodraethu, yn torchi eu llewys gan ddefnyddio'u casgliadau gwych a'u creadigrwydd i gysylltu â'r gymdeithas o'u cwmpas. Maent yn cefnogi pobl sydd â dementia, yn goresgyn unigrwydd trwy ddwyn pobl ynghyd, yn cynnig cyfleoedd i hyfforddi a dysgu, yn ymwneud â phlant a theuluoedd ac yn dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.

Mae hyn yn rhan hanfodol o genhadaeth llawer o amgueddfeydd a chânt eu gyrru gan ymdeimlad dwfn o bwrpas. I mi, yr hyn y mae'r enghreifftiau hyn yn ei amlygu yw bod amgueddfeydd yn dod yn lleoedd hawdd mynd a dod iddynt, yn cydweithio â chymunedau a phartneriaid o bob lliw a llun i harneisio ein casgliadau gwych a'n gofodau anhygoel, gyda'r nod clir o newid bywydau er gwell. Y fath bobl wych! Y fath straeon ysbrydoledig! Y fath gasgliadau anhygoel!

Byddai'n braf clywed am eich enghreifftiau chi fel y gallwn eu defnyddio i ysbrydoli eraill.

Maggie Appleton
*Llywydd (2018-21)*
*Cymdeithas yr Amgueddfeydd*



# Mae amgueddfeydd Cymru yn rhwydwaith o adnoddau cymunedol pwysig ac mae'r astudiaethau achos yn y llyfryn hwn yn dangos pa mor werthfawr ydynt i Gymru a pha mor hanfodol i'w hardaloedd.

Ledled Cymru, cawn enghreifftiau grymus a dyfeisgar o gasgliadau, prosiectau, gweithgareddau a rhaglenni amgueddfeydd yn creu newid er budd unigolion a chymunedau. Mae amgueddfeydd yn gofalu am gof diwylliannol Cymru – y gwrthrychau a'r storïau sy'n ein hysbrydoli i ddysgu o'n gorffennol er mwyn deall ein presennol a chreu dyfodol gwell. O ddydd i ddydd, heb halibalŵ, mae amgueddfeydd Cymru'n cefnogi eu cymunedau ac yn helpu i gyflawni agendâu cymdeithasol a llywodraethol allweddol fel cydlyniant cymunedol, yr economi, iechyd a lles, dysgu, a datblygu sgiliau.

Yn sicr, mae amgueddfeydd Cymru'n newid bywydau – a gobeithio bod yr astudiaethau achos a welir yma yn dangos pa mor hanfodol ydynt i gymunedau ledled y wlad.

Victoria Rogers
*Llywydd (2016-21)*
*Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru*

# CYMDEITHAS YR AMGUEDDFEYDD

# YSBRYDOLI AMGUEDDFEYDD I NEWID BYWYDAU

## 01.
# Gwella iechyd a lles

- Mae amgueddfeydd yn gwella ansawdd ein bywyd a'n hiechyd meddyliol a chorfforol.
- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â sefydliadau iechyd a lles i helpu pob math o bobl mewn cymdeithas, sydd â gwahanol anghenion.
- Mae gwirfoddoli a chymryd rhan ystyrlon yn hybu lles a hunanhyder a gallant ehangu gorwelion y bobl sy'n cymryd rhan, yr amgueddfa a'r cyhoedd.

## 02.
# Creu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt

- Mae amgueddfeydd yn ein helpu i werthfawrogi'r mannau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â nhw, ac yn ein helpu i ddeall o ble y daethom.
- Mae amgueddfeydd yn creu ymdeimlad o berthyn trwy ymgysylltu â chymunedau ac annog y cyhoedd i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau.
- Mae amgueddfeydd yn defnyddio ymgysylltu, dysgu a chasgliadau i greu dealltwriaeth o fewn gwahanol grwpiau a chymunedau mewn cymdeithas a rhyngddynt.
- Mae amgueddfeydd yn ffurfio partneriaethau gyda grwpiau cymunedol, elusennau a chyrff trydydd sector er mwyn creu lleoedd sy'n agored ac yn hygyrch i bawb.

## 03.
# Ysbrydoli ymgysylltu, myfyrio a thrafod

- Mae amgueddfeydd yn cydweithio â'r cyhoedd, sy'n cymryd rhan weithredol a chreadigol ym mywyd yr amgueddfa – gan ei defnyddio fel lle i gyfnewid safbwyntiau, profiadau, syniadau a gwybodaeth.
- Mae amgueddfeydd yn ein helpu i ddeall y byd cymhleth o'n cwmpas a ffeindio'n ffordd trwyddo, gan ein hannog i fyfyrio ar heriau ein hoes fel camwahaniaethu, gwrthdaro, tlodi a newid hinsawdd.
- Mae amgueddfeydd yn defnyddio'u gwaith ymchwil a'u casgliadau i herio tybiaethau, i feithrin trafodaeth ac i ysgogi pobl i gyfrannu at newidiadau er gwell yn y byd. Nid lleoedd niwtral ydynt.
- Mae amgueddfeydd yn ysbrydoli dysgu a chreadigrwydd mewn plant ac oedolion, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i gynulleidfa eang ac amrywiol ar bob cam o'u bywyd.

01.

# GWELLA IECHYD A LLES



# CELF YN YSBYTAI MAES COVID-19 AMGUEDDFA CYMRU

Ar ddechrau pandemig Covid-19 yn 2020, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n creu ysbytai maes ledled Cymru er mwyn dyblu nifer y gwelyau oedd ar gael gan y GIG. Yn wahanol i ysbytai parhaol, adeiladau wedi'u haddasu neu adeiladau dros dro oedd y rhain ond roedd ganddynt un peth yn gyffredin, roedd y waliau'n noeth. Yr her i Amgueddfa Cymru oedd trawsnewid rhai o'r adeiladau hyn yn orielau celf.

Trwy gydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, dyfeisiodd Amgueddfa Cymru *Celf ar y Cyd*, sef cyfres o brosiectau uchelgeisiol ym maes celf weledol sy'n ein herio i rannu'r casgliad celf ledled Cymru yn ystod yr argyfwng. Mewn cydweithrediad â byrddau iechyd ledled Cymru, ein tasg oedd gwneud i bobl deimlo'n gartrefol a gweithredu ar frys fel y byddai'r gwaith yn barod pan gyrhaeddai'r cleifion cyntaf.

Wrth i bandemig Covid-19 waethygu dros y gaeaf ac i'r pwysedd ar staff y GIG gynyddu, roeddem yn dal ati i fynd â'r casgliad celf i ysbytai er mwyn ysbrydoli a chysuro'r staff a'r cleifion.

Ddechrau mis Chwefror 2021, agorwyd Hafan Staff newydd ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy elusen sy'n cael ei rhedeg gan y pêl-droediwr o Gymro, Gareth Bale a'i deulu, gyda'r nod o hybu lles staff y GIG.

Gwahoddwyd staff yr ysbyty i ddewis pa fath o weithiau celf yr hoffent eu gweld a'r hoff thema o bell ffordd oedd byd natur. Dewiswyd lluniau sy'n ceisio dod â hud yr awyr agored i mewn i'r adeilad, gan ddefnyddio copïau enfawr o'r darluniau sy'n ymestyn o'r llawr i'r nenfwd.

Cam nesaf y prosiect fydd dod â barddoniaeth i'r waliau, ac mae gwaith newydd yn cael ei gomisiynu gan ddwy fardd o Gymru, Hannan Issa ac Elan Grug. Caiff y cerddi eu hysbrydoli gan y lluniau a byddant yn cynnig safbwyntiau ffres a ffyrdd newydd o feddwl am gelf, y dirwedd naturiol, a phwysigrwydd hyn i bawb ohonom, yn enwedig mewn amseroedd anodd.

Mae Amgueddfa Cymru yn dal i gynnal sgyrsiau gyda byrddau iechyd ledled Cymru er mwyn canfod dulliau newydd o sicrhau bod cleifion a thimau'r GIG yn gallu defnyddio'r casgliad celf mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, ar-lein ac yn y gweithle.

# CAFFIS COF SY'N PONTIO'R CENEDLAETHAU

## GWASANAETH AMGUEDDFEYDD SIR FYNWY

> Mae'r rhaglen yn esiampl wych i brosiectau eraill sy'n pontio'r cenedlaethau a bydd yn cael ei defnyddio fel patrwm ar gyfer i grwpiau Ffrindiau Dementia eraill ledled y Deyrnas Unedig.

Ian Thomas
*Cymdeithas Alzheimer*

Ledled Prydain, mae mwy a mwy o bobl yn byw gyda dementia. Bu Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy yn chwilio am ffyrdd newydd o gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia yn eu rhaglenni, gan adeiladu ar ein rhaglen atgofion lwyddiannus sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr.

Pan ofynnodd ein hysgol uwchradd leol i ni eu helpu â Her Gymunedol Bagloriaeth Cymru, roedd yn ymddangos yn gyfle delfrydol i greu prosiect a fyddai'n dod â phobl ifanc a phobl sy'n byw gyda dementia at ei gilydd: caffis cof sy'n pontio'r cenedlaethau.

Hyfforddwyd ein carfan gyntaf o 10 o bobl ifanc i ddefnyddio gwrthrychau yr oedd modd gafael ynddynt i ysgogi sgyrsiau a threfnwyd sesiynau ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia ar eu cyfer. Bu'r myfyrwyr yn cydweithio â staff yr amgueddfa i ymchwilio ac fe drefnwyd cyfres o gaffis cof, dwy awr o hyd, ar themâu oedd yn cynnwys cerddoriaeth, gwrthrychau y gallent afael ynddynt, gwisgoedd, a the prynhawn.


Daeth nifer dda i'r caffis a chawsant ymateb ffafriol. Buont o fudd i'r myfyrwyr hefyd. Cafodd rhai ohonynt wobr gwirfoddolwyr ifanc ac aros ymlaen i fentora'r garfan nesaf.

Yn ogystal, mae prosiect Caffi Cof wedi arwain at ehangu ein rhaglenni ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys gweithdai creadigol a phartneriaethau gyda'n hawdurdod iechyd lleol.

Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth? Gobeithio'n bod ni.

> Mae'n gwneud i bobl sy'n byw gyda dementia deimlo fel pobl eto.

Gofalwr rhywun a fu ar y cwrs gweithdai creadigol



# ADEILADU PARTNERIAETH AR GYFER NEWID
## AMGUEDDFA CWM CYNON

Ym mis Tachwedd 2019 cyflwynodd Amgueddfa Cwm Cynon mewn partneriaeth â'r elusen leol, Cynon Valley Pals, Gynllun Laniard Blodyn Haul yn yr amgueddfa. Mewn meysydd awyr y defnyddiwyd y cynllun yn wreiddiol ac mae'n ffordd ddiffwdan i staff adnabod pobl y gall fod arnynt angen cymorth ychwanegol ar eu hymweliad. Cyflwynwyd y cynllun i'r amgueddfa gan Cynon Valley Pals, a oedd yn ei hyrwyddo yn y gymuned gyfan.

Lansiwyd y cynllun ar ôl cyfnod o ymgynghori a gweithdai gyda'r elusen. Bu Cynon Valley Pals yn rhannu eu profiadau ac yn ateb cwestiynau am y cynllun.

Mae llwyddiant y lansiad hwn wedi creu perthynas lwyddiannus gyda'r elusen. Aeth yr amgueddfa ati i adeiladu ar y cynllun gan gyflwyno gwybodaeth synhwyraidd yn ei horielau. Mae'r arwyddion wedi'u cynllunio i roi syniad i bobl beth sydd i'w ddisgwyl yng ngwahanol rannau'r amgueddfa, gan helpu pobl sy'n pryderu am fynd i leoedd heb wybod beth i'w ddisgwyl a lleihau'r potensial ar gyfer gorlwytho synhwyraidd.

Mae'r amgueddfa'n dal i gydweithio â Cynon Valley Pals fel rhan o brosiect a ariennir gan y People's Health Trust. Mae'n cydweithio â theuluoedd lleol a gefnogir gan yr elusen a bydd eu lleisiau nhw'n penderfynu sut mae'r prosiect yn datblygu. Byddant hefyd yn datblygu sgiliau newydd ac yn dal i ymwneud â'r amgueddfa a'r gymuned leol.

Mae'r bartneriaeth yn dal yn un o ddysgu a chyfnewid. Rydym yn dal i ddysgu ac i adeiladu ar arferion gorau. Trwy'r bartneriaeth weithiol hon rydym wedi gwneud mwy dros yr amgueddfa a'r gymuned nag y gallai'r naill na'r llall ohonom fod wedi'i wneud ar ein pen ein hunain.





# HIDDEN NOW HEARD

## MENCAP CYMRU MEWN PARTNERIAETH AG AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN AC AMGUEDDFEYDD RHANBARTHOL

> Rwy'n credu bod cael rhywun ag anabledd dysgu yn bresennol yn gallu helpu i wneud i bobl deimlo'n gartrefol, nid yn unig y cyn-gleifion ond y staff cymorth hefyd gan fod gennym brofiadau'n gyffredin.

Roedd Hidden Now Heard yn brosiect hanes llafar dros dair blynedd (2015-17) a gynhaliwyd dan arweiniad elusen Mencap Cymru i bobl ag anableddau dysgu ac mewn partneriaeth ag Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan ac amgueddfeydd rhanbarthol ledled Cymru. Fe'i hariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Aeth y prosiect ati i gasglu atgofion cleifion, eu perthnasau a staff o chwe hen ysbyty arhosiad hir yng Nghymru. Yn aml roedd yr atgofion hyn yn boenus a heb eu datgelu i neb o'r blaen.

Galwai Deddf Nam Meddyliol 1913 ar awdurdodau lleol i sefydlu ysbytai arhosiad hir ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu. Caent eu cyfrif yn "drefedigaethau" ar gyfer pobl â "nam meddyliol" ond câi llawer o'r cleifion gamddiagnosis a chaent eu hynysu oddi wrth gymdeithas. Chwaraeodd Mencap Cymru ran arweiniol wrth gau'r sefydliadau arhosiad hir hyn yng Nghymru.

Ar ddechrau'r prosiect, bu Sain Ffagan yn cydweithio'n agos â Mencap Cymru i hyfforddi eu staff ym moeseg a thechnegau casglu tystiolaeth lafar, ac i ddatblygu ffurflenni hygyrch ar gyfer caniatâd a hawlfraint. Yn ystod y prosiect, gwnaed 97 recordiad hanes llafar gydag 85 o bobl – pob recordiad bellach wedi'i archifo yn Sain Ffagan – a chynhaliwyd naw arddangosfa dros dro mewn amgueddfeydd rhanbarthol a mannau cyhoeddus ledled Cymru.

Soniodd Sara Pickard o Mencap Cymru am ei rôl fel swyddog prosiect a chyfwelydd: "Roedden ni'n teimlo y byddai cael rhywun fel fi yn rhan o'r cyfweliad yn ein helpu i gael y cyfweliad gorau posibl. Mewn rhai achosion, roedd y ffaith fy mod i yno yn help i'r cyfweliadau. Rwy'n credu bod cael rhywun ag anabledd dysgu yn bresennol yn gallu helpu i wneud i bobl deimlo'n gartrefol, nid yn unig y cyn-gleifion ond y staff cymorth hefyd gan fod gennym brofiadau'n gyffredin."

Mae Mencap Cymru a Sain Ffagan wedi datblygu'r model hwn ymhellach i fod yn fframwaith ar gyfer Ein Rhwydweithiau Cymdeithasol – prosiect hanes llafar sy'n archwilio'r cyfeillgarwch a brofir gan bobl ag anableddau dysgu sy'n byw yng Nghymru heddiw a'u perthynas â phobl eraill. Bydd recordiadau'r prosiect hwn hefyd yn dod yn rhan o'r casgliad cenedlaethol yn Sain Ffagan.

# 02.
# CREU LLEOEDD GWELL I FYW A GWEITHIO YNDDYNT

# LLENYDDIAETH A THRAWMA
## CANOLFAN DYLAN THOMAS

Mae Llenyddiaeth a Thrawma yn brosiect ysgrifennu creadigol cymunedol sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Dylan Thomas, Cyngor Abertawe. Mae'n adeiladu ar berthynas faith rhwng Canolfan Dylan Thomas a chymunedau ffoaduriaid lleol. Ddechrau'r ganrif hon, pan ddaeth Abertawe'n "ardal wasgaru", fe ddechreuon ni weithio gyda phobl oedd wedi'u dadleoli, gan lansio blodeugerddi o ysgrifennu creadigol gan ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl leol, a chynnal dathliadau cymunedol.

Diolch i arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, fe ddechreuon ni berthynas hirdymor â mudiadau fel Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Abertawe, yr African Community Centre ac Abertawe, Dinas Noddfa, ac yn bwysicaf oll gyda phobl oedd wedi'u dadleoli. O ganlyniad i hynny, cychwynnwyd y sesiynau Llenyddiaeth a Thrawma yn 2017, dan arweiniad yr awdur o'r Camerŵn, Eric Ngalle Charles. Bu ei brofiad personol ef o gael ei ddadleoli a cheisio lloches yn hanfodol wrth ddarparu lle diogel i bobl fynegi eu hunain.

Yn ystod y sesiynau Llenyddiaeth a Thrawma, mae pobl yn adrodd eu straeon unigryw trwy farddoniaeth a rhyddiaith. Roedd cynnal y gweithdai yn ein man dysgu'n sicrhau bod cyfleusterau chwarae ar gael i



blant ac felly bod yr oedolion yn gallu canolbwyntio ar ysgrifennu. Darparwyd tocynnau bws am ddim fel nad oedd costau teithio'n rhwystr. Mae'r gwaith a gynhyrchwyd wedi ymddangos mewn digwyddiadau diwylliannol ac ar y cyfryngau lleol, ac mae wedi'i ddarllen ar radio y BBC.

Mae'r gweithdai'n cael effaith gymdeithasol glir, gan alluogi pobl i deimlo'n rhan o'r gymuned ehangach, i ddechrau mynychu canolfannau diwylliannol ac i ddod i nabod eu dinas newydd. Daeth ein canolfan yn ganolbwynt ac yn ofod diogel i grŵp ymroddedig a dawnus o gymuned sy'n aml yn cael ei hesgeuluso.

Ar ôl cael cyfle i gydweithio'n agos â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, rydym yn cydweithio yn awr i ehangu'r cyfleoedd hyn. Bydd ein prosiect newydd Blooming under the Tall Tales, gyda chefnogaeth Cronfa Casgliadau Esmée Fairbairn, yn canolbwyntio ar weithio gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mudiadau cymunedol i ddatblygu rhaglenni teuluol o gwmpas ein casgliadau.

**Saba Humayun**
*Prosiect Llenyddiaeth a Thrawma*

“

Fel ffrind, neu fel teulu erbyn hyn, rydyn ni’n ceisio annog pobl i ddod i’r prosiect hwn i rannu eu stori os dymunan nhw.

Rwy’n hoffi dweud wrth bobl beth rydyn ni wedi bod drwyddo. Mae gennym ni lawer o broblemau yn ein bywyd, ond rydyn ni yma o hyd. Mae gennym gyfle i siarad o flaen pobl.

O’r blaen, roeddwn i’n nerfus. Ond roedd Eric bob amser yn dweud wrtha i, ‘Dim ond ti sy’n gallu dweud dy stori di wrth bobl eraill’.



# LLE I GYMUNEDAU
## AMGUEDDFA CWM CYNON

Bu Amgueddfa Cwm Cynon yn ymdrechu i'w sefydlu ei hunan yng Nghwm Cynon ers ei ailagor yn 2016. Mae wedi gweithio i ddenu artistiaid a grwpiau celf lleol, i recriwtio gwirfoddolwyr yn lleol, i lleol sy'n adlewyrchu'r gymuned ac i wneud yr amgueddfa'n fwy perthnasol i fywydau bob dydd y bobl, gan greu ffyrdd newydd o ddod â phobl trwy ei drysau.

Er mwyn gwneud hyn ceisiodd yr amgueddfa newid ei delwedd ac adlewyrchu hunaniaeth cymunedau Cwm Cynon trwy groesawu sefydliadau sy'n gweithio er budd y gymuned leol. Aeth ati i feithrin perthnasoedd â grwpiau y gallai gydweithio â nhw fel Project Unity, grŵp cymorth LGBTQIA. Bu'n cydweithio â'r grŵp i ehangu eu rhaglen, o ddim ond prynhawniau coffi misol i gynnwys sgyrsiau, digwyddiadau ymwybyddiaeth ac arddangosiadau yn yr amgueddfa.

Dros gyfnod o dair blynedd, bu cynnydd o 460% yn y defnydd o ystafelloedd yr amgueddfa, o 205 awr yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2018 i 965 awr dros gyfnod o 11 mis hyd at fis Chwefror 2020.

Daeth yr amgueddfa'n ganolfan i'r gymuned a llwyddodd i amrywio'i harlwy, gan ddod yn berthnasol i bobl Cwm Cynon. Yn ogystal, daeth yr amgueddfa'n ystafell ddosbarth, yn fan cyfarfod, yn gylch chwarae, yn grŵp cymorth, yn ddosbarth ioga a mwy. Mae'r amgueddfa wedi tyfu, mae wedi dysgu mwy am ei chymuned, ac wedi dod yn fwy cynhwysol ar ei thaith. Mae'n lle sy'n diwallu llawer o anghenion, ac yn gynfas i hunaniaethau amrywiol ein cymunedau.

# STRAEON CROCHENWAITH LLANELLY
## AMGUEDDFA PARC HOWARD MEWN PARTNERIAETH Â CYFUNO

Rhoddwyd Amgueddfa Parc Howard yn rhodd i Lanelli gan y Fonesig Howard Stepney yn 1912 i fod yn ganolfan ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a lles mewn cyfnod o ddiweithdra uchel ac aflonyddwch cymdeithasol. Mae Llanelli'n dref ôl-ddiwydiannol falch ar y groesffordd rhwng broydd gwledig ac ardaloedd diwydiannol y de. Cafwyd cynlluniau adfywio uchelgeisiol ym meysydd diwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd. Ond roedd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r amgueddfa yn arwydd bod yna broblem.

Cafodd ein prosiect i ddefnyddio casgliadau mewn ffordd wahanol er budd y gymdeithas ac i wneud newidiadau er gwell gefnogaeth Cronfa Casgliadau Esmée Fairbairn, a reolir gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd. Roedd casgliad Parc Howard o Grochenwaith Llanelly (1839-1922), pob darn wedi'i wneud â llaw ac yn gyforiog o straeon am bobl, yn lle diddorol i ddechrau'r daith.

Bu prosiect Straeon Crochenwaith Llanelly yn arbrofi i weld beth roedd pobl yn ei fwynhau. Roedd ein partneriaeth â'r rhaglen Cyfuno yn help i hyrwyddo'r gwaith trwy rwydweithiau cymunedol. Bu'r cynnydd o 40% yn nifer yr ymwelwyr o fewn blwyddyn a chyrraedd rownd derfynol gwobr Kids in Museums ar gyfer Amgueddfeydd sy'n Croesawu Teuluoedd yn dipyn o syndod.

Roeddem yn awyddus i bobl weld y gallen nhw wneud gwahaniaeth yn eu hamgueddfa. Cyd-grëwyd arddangosfa grochenwaith barhaol newydd gyda gwybodaeth a deunyddiau a gasglwyd trwy sesiynau ailddehongli gydag arbenigwyr; gweithdai gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol; rhaglenni canolfannau teuluoedd; a chymdeithasau hanes lleol. Datgelodd y rhain straeon hanesyddol hynod ddiddorol am ymfudo, hunaniaeth, iaith, iechyd, bywydau gwaith, ac anghydraddoldebau, a oedd yn canu cloch gyda phobl heddiw.

Er bod y pandemig wedi dod cyn cwblhau'r arddangosfa, bu'n gyfle i roi cynnig ar rywbeth newydd: adnoddau ar-lein ar gyfer ysgolion. Bydd y cwricwlwm newydd, a gyflwynir yng Nghymru cyn hir, yn golygu y gellir defnyddio'r casgliad crochenwaith a'r straeon cymunedol a gasglwyd gennym i ysbrydoli themâu trawsgwricwlaidd a phrofiad cwbl newydd wrth ymweld. Bydd y rhain ar gael yn nes ymlaen yn 2021.





# HEL TRYSOR; HEL STRAEON

## PARTNERIAETH DAN ARWEINIAD AMGUEDDFA CYMRU

Cafodd prosiect treftadaeth *Hel Trysor, Hel Straeon,* sef partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (y Ffed) a'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru (PAS Cymru), ei ariannu trwy raglen Collecting Cultures Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (2015-2020).

Llwyddodd wyth ar hugain o amgueddfeydd ledled Cymru i gaffael 168 o arteffactau archaeolegol pwysig, a ganfuwyd yn ddiweddar gan aelodau'r cyhoedd, ar gyfer eu casgliadau. Yn ogystal, daeth y prosiect â chlybiau defnyddwyr datgelyddion metel, amgueddfeydd lleol a chymunedau at ei gilydd i glywed y straeon newydd a ddatgelwyd gan y darganfyddiadau hyn.

Bu chwe phrosiect archaeoleg cymunedol, o dan arweiniad amgueddfeydd lleol, yn cydweithio â grwpiau targed a chymunedau allweddol, yn cynnwys gofalwyr ifanc, grwpiau dementia, grwpiau dynion, WIs, cynfilwyr yn dioddef o PTSD, ysgrifenwyr ifanc, grwpiau o ysgolion lleol, gwirfoddolwyr amgueddfeydd, grwpiau treftadaeth, defnyddwyr datgelyddion metel a pherchnogion tir. Cafwyd ymateb creadigol gan bob prosiect i ddarganfyddiadau arwyddocaol a wnaed yn eu hardal. Cynhaliwyd dros gant o weithgareddau, gyda 123 o wirfoddolwyr, ac fe gydgynhyrchwyd eitemau newydd i'w harddangos mewn amgueddfeydd.

Bu newyddiadurwyr ifanc a darpar newyddiadurwyr yn helpu i ddatblygu straeon a deunydd i sicrhau bod gwefan PAS Cymru yn adnodd difyr ar dreftadaeth gludadwy yng Nghymru, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a ffilmiau cysylltiedig.

Datblygodd y prosiect rwydwaith casglu strategol a diwylliant mwy hirdymor o gasglu darganfyddiadau archaeolegol yng Nghymru, yn cynnwys hyfforddiant, rhannu sgiliau a chyfleoedd i wirfoddoli.

Datblygodd drefniadau cydweithio newydd hefyd, gan gadarnhau diddordebau a rolau'r partneriaid.

Mae adroddiad gwerthuso allanol wedi cyfleu'r ymateb a gafwyd gan bobl a gymerodd ran ac a gyfrannodd, ac wedi amlinellu'r ffordd yr oedd gwahanol bobl yn teimlo bod y prosiect wedi gwneud lles iddynt.

> "Fe wnes i fwynhau'r holl brofiad o gymryd rhan yn y prosiect o'r dechrau i'r diwedd.... Mae wir yn dod â hanes yn ôl yn fyw.
>
> **Nick Mensikov**
> *Defnyddiwr datgelydd metel, a ddaeth o hyd i gelc, yn sôn am gymryd rhan yn y prosiect archaeoleg cymunedol a arweiniwyd gan Amgueddfa'r Fenni.*

# 03.

# YSBRYDOLI YMGYSYLLTU, MYFYRIO A THRAFOD

# ARDDANGOSFA DEFAID A SYMPOSIWM TIRWEDDAU'R DYFODOL AMGUEDDFA CEREDIGION

Mae Amgueddfa Ceredigion mewn ardal wledig, lle mae argyfyngau dwbl newid yn yr hinsawdd ac ansicrwydd Brexit wedi pegynu barn yn y cymunedau lleol sydd â buddiannau yn rhannau mynyddig y sir. Ymateb yr amgueddfa i hyn oedd cynnal symposiwm Tirweddau'r Dyfodol fel rhan o'i harddangosfa Defaid a gafodd ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Amgueddfeydd a Threftadaeth 2020. Bwriad y symposiwm oedd hwyluso deialog rhwng y gwahanol randdeiliaid.

Roedd yr arddangosfa Defaid yn archwilio hanes, treftadaeth a diwylliant cymunedau'r ffermwyr defaid, trwy lens celf gyfoes, gyda chymorth arteffactau o gasgliadau'r amgueddfa. Trwy gymorth cyllid gan yr Art Fund a Sefydliad Garfield Weston, llwyddodd yr amgueddfa i gael benthyg gweithiau'n ymwneud â defaid gan Henry Moore, Joseph Beuys a Menashe Kadishman. Bu'r gweithiau hyn gan artistiaid enwog o gymorth i ddenu cynulleidfaoedd ehangach.



Comisiynwyd yr artist Ffion Jones i weithio gyda ffermwyr defaid i wneud ffilm mewn cydweithrediad â'r gymuned amaethyddol, gan roi llais yn yr amgueddfa i'r cymunedau ffermio, sy'n draddodiadol yn gynulleidfa anodd iawn ei chyrraedd.

Roedd y symposiwm Tirweddau'r Dyfodol yn adeiladu ar y gwaith estyn allan ac ar y sylw a gafodd yr arddangosfa. Daeth ag artistiaid, curaduron, academyddion, ffermwyr, ecolegwyr, ymgyrchwyr amgylcheddol, llunwyr polisi ac eraill ynghyd i drafod materion yn ymwneud â threftadaeth a dyfodol ardaloedd mynyddig Ceredigion. Roedd y teithiau cerdded, y sgyrsiau a'r trafodaethau ar ffurf 'caffi byd' yn galluogi pobl i ymwneud â'i gilydd gan wrando'n barchus ac yn weithredol gan geisio canfod gwerthoedd cyffredin ac adeiladu pontydd.

Mae gwaddol y digwyddiad arloesol hwn yn parhau; mae'r amgueddfa'n cynnal cyfarfodydd misol Ymarfer y Bobl, yn ddigidol yn ystod y cyfnodau cloi, i barhau â'r ddeialog a sefydlwyd cynghrair o dros 30 o ymarferwyr tir o'r enw Cynefin yn dilyn y symposiwm. Ei nod yw rhannu adnoddau a gwybodaeth yn ymwneud â'r tir a'r amgylchedd.

# DATGELU CYFRINACHAU BANER JAPAN
# AMGUEDDFA FIRING LINE

Cafodd Amgueddfa Firing Line gyllid gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru i gyflwyno prosiect i ailddehongli baneri o Japan yng Nghasgliadau Catrawd Frenhinol Cymru. Fel man cychwyn, trefnwyd i Tamayo, cyfieithydd Japaneg a myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, i ymchwilio i arteffact yn yr amgueddfa; un faner Japaneaidd a gipiwyd gan y Gatrawd Gymreig yn Burma.

Bu Tamayo'n ymchwilio'n fedrus gan ddatgelu enw perchennog gwreiddiol y faner, canfod o ba gymuned y daeth ac adnabod marciau'r stamp swyddogol a oedd yn dal ar y faner. Buan iawn y sylweddolwyd faint o symbolaeth ac arwyddocâd emosiynol a gollwyd wrth i faner a gipiwyd droi'n arteffact mewn amgueddfa.

Trwy gydweithio ag Amgueddfa Catrawd Frenhinol Cymru yn Aberhonddu, cafwyd gweld rhagor o arteffactau tebyg. Yn y gorffennol, roedd baneri cenedlaethol Japan yn cael eu llofnodi gan aelodau o gymuned milwr o Japan pan fyddai'n mynd i ryfel. Rhoddodd y weithred o gyfieithu llofnodion fywyd newydd i'r arteffactau hyn, gan wneud synnwyr o'r berthynas rhwng y gwahanol faneri Japaneaidd. Caniataodd i ni fel amgueddfeydd greu dehongliadau newydd yn seiliedig ar naratifau Japaneaidd sy'n rhoi cyd-destun i'r ychydig wybodaeth oedd gan y gatrawd am eu harwyddocâd. Roedd hon yn ffordd newydd i'r ddwy amgueddfa fynd i'r afael â phrosiectau curadurol ac arweiniodd at strategaethau dehongli newydd gyda'r nod o ehangu'r cynulleidfaoedd sy'n dod i weld ein casgliadau. Er bod pandemig Covid-19 wedi gohirio'r prosiectau ailarddangos hyn, mae'r prosiect hwn wedi helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer dehongli straeon arteffactau'r gatrawd yn y dyfodol.

Yn ogystal, defnyddiwyd yr arian i gynhyrchu ffilm ddogfen fer yn dilyn hynt y prosiect hwn. Gellir ei gwylio yn: https://m.youtube.com/watch?v=yHkeSnH58W8





# POBL BUTETOWN
## AMGUEDDFA CAERDYDD

Prosiect ar y cyd rhwng Amgueddfa Caerdydd a chydweithfa o artistiaid cymunedol oedd *Pobl Butetown*. Gyda chanmlwyddiant Terfysgoedd Hil 1919 yn fan cychwyn, roedd yn rhannu hanesion am y rhagfarn a'r hiliaeth a ddioddefodd y gymuned ond hefyd yn dathlu ei chreadigrwydd a'i gwydnwch.

Cynhaliwyd digwyddiad i gychwyn y prosiect, gyda sgyrsiau ac arddangosiadau gan yr amgueddfa, cymuned Butetown, Archifau Morgannwg, Llyfrgelloedd Caerdydd, Race Equality First a'r Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant.

Roedd y digwyddiad yn annog pobl i ddysgu am y terfysgoedd ac i fyfyrio arnynt, roedd yn herio hen gamargraffiadau ac yn gwahodd y rhai a ddaeth i rannu a thrafod y terfysgoedd eu hunain a'r effaith a gawsant ar y gymuned wedyn.

Roedd yr amgueddfa'n cydnabod bod y ddinas wedi anwybyddu'r terfysgoedd a'u heffeithiau ers amser maith ac mai ychydig iawn oedd ganddi yn ei chasgliad a allai ei helpu i'w cyfleu yn ei harddangosfeydd (yn enwedig o safbwynt y cymunedau croenliw a gafodd eu dal yn y trais). Felly aeth ati i gomisiynu artistiaid o'r gymuned, i weithio gyda'r gymuned, i ymateb yn greadigol. Esgorodd hyn ar ffilm ddogfen (gan Gavin Porter, gyda cherddoriaeth gan Anthony Ward), darlun (gan Kyle Legall), cyfres o ffotograffau (gan Zaid Djerdi) a cherdd (gan Ali Zay). Erbyn hyn mae'r rhain yn rhan o'r casgliad ac maent i'w gweld yn arddangosfeydd parhaol yr amgueddfa, ac mewn adnoddau i ysgolion a rhaglenni.

Mae *Pobl Butetown* yn enghraifft o ymrwymiad yr amgueddfa i gefnogi cymunedau i adrodd eu straeon yn eu lleisiau eu hunain ac i sicrhau bod rhannau o hanes Caerdydd sydd heb eu mynegi, wedi'u hanwybyddu neu wedi'u cuddio yn cael eu clywed.



# DIPPY YN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CAERDYDD AMGUEDDFA CYMRU

Yn 2019 bu Dippy, sgerbwd Diplodocws eiconig y Natural History Museum ar daith o gwmpas y Deyrnas Unedig. Ymwelodd â Chymru gan alw yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Roedd y Natural History Museum yn awyddus i Dippy'r deinosor gael ei ddefnyddio i ysbrydoli ymwelwyr i ymddiddori mewn materion amgylcheddol cyfoes ac i gyrraedd pobl nad ydynt yn arfer dod i amgueddfeydd.

Mae gennym Fforwm Ieuenctid ym mhob un o'n hamgueddfeydd ledled Cymru. Anogir pobl ifanc 14-25 oed i fod yn bartneriaid wrth wneud penderfyniadau a threfnu gweithgareddau. Mae'r fforymau'n ystyried barn pobl ifanc ac yn mynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae prosiectau dan arweiniad ieuenctid ar draws yr amgueddfa yn rhan o'r fenter Dwylo ar Dreftadaeth, a wnaed yn bosibl gan grant Tynnu'r Llwch Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Er mwyn gwneud Dippy yn berthnasol i'w cyfoedion, dewisodd y bobl ifanc godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd ac ysbrydoli gweithredu cadarnhaol yn y maes. Dewiswyd effaith amgylcheddol y diwydiant ffasiwn fel eu "prif fater" oherwydd ei gost amgylcheddol enfawr. Penderfynwyd cysylltu hyn â deinosoriaid trwy lunio



deinosor o ddillad gwastraff ac eitemau ffasiwn oedd ar eu ffordd i safleoedd tirlenwi.

Ar ôl dewis y thema, bu’r grŵp yn chwilio am waith celf yn y casgliadau a oedd naill ai’n ymwneud â materion amgylcheddol neu’n defnyddio ffabrigau a phethau y daethpwyd o hyd iddynt.

> “Mae wedi bod yn hwyl, gweithio gyda’n gilydd fel tîm yn creu celf i lywio newid amgylcheddol.
>
> Aelod o’r fforwm ieuenctid

Buont yn gweithio gyda’r artist cerflunio lleol Megan Broadmeadow. Penderfynodd y fforwm gynnwys y cyhoedd wrth wneud elfennau o’r eitem er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r materion dan sylw. Aethant ati i ddatblygu a threfnu gweithgareddau gyda theuluoedd oedd yn ymweld â’r amgueddfa yn ystod gwyliau’r haf. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdai undydd gyda phobl ifanc o sefydliadau partner gan gynnwys Llamau ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Roedd y gweithdai hyn hefyd yn canolbwyntio ar ddefnyddio ffasiwn i godi ymwybyddiaeth a lledaenu negeseuon cadarnhaol. Roedd pobl ifanc yn rhan annatod o’r prosiect cyfan; cyflwynodd awdur ac ymgyrchydd ifanc weithdai ysgrifennu gyda’r grŵp i ddatblygu gwaith ysgrifennu’r arddangosfa, a bu myfyrwyr darlunio a dylunio o Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn eu helpu i ddatblygu dyluniad 2D yr arddangosfa.

Tra oeddent yn datblygu’r prosiect, cyhoeddodd Streiciau Hinsawdd Ieuenctid ddiwrnod o weithredu byd-eang, felly cynhaliwyd gweithdai gwneud baneri ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd i baratoi ar gyfer y streic.

Datblygodd y bobl ifanc sgiliau newydd, gan gynnwys gwnïo a sgrin-brintio, ochr yn ochr â sgiliau cynllunio, gweithio mewn tîm, creu cynlluniau prosiectau, ymchwilio a chynllunio digwyddiadau. Maent hefyd wedi parhau i ymgyrchu ynghylch newid yn yr hinsawdd.

Cafodd y gwaith ymgyrchu hyn effaith gadarnhaol ar yr amgueddfa. Roedd yr arddangosfa yn rhannol gyfrifol am benderfyniad y sefydliad i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd-eang, a chadarnhau ei ymrwymiad i leihau ei ôl troed carbon.

Ar hyn o bryd mae’r amgueddfa’n gweithio i ddatblygu rhaglen newydd i ysgolion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac ymgyrchu fel rhan o waddol y prosiect.



**Image credits**
Front cover: discussions on the heritage and future of Ceredigion's uplands, image courtesy of Ceredigion Museum; p.3 Museum of Butetown portrait © Museum of Cardiff/Zaid Djerdi; p.7 artwork on the wall of a Covid-19 field hospital, image courtesy of Amgueddfa Cymru – National Museum Wales; p.8 Pixabay; p.9 image courtesy of Cynon Valley Museum; p.10 ward teapot from Bryn y Neuadd Hospital. More than 20 associated objects came into the St Fagans collection as a result of the Hidden Now Heard partnership project, image courtesy of Amgueddfa Cymru; p.12 Eric Ngalle Charles (centre) with participants in the Literature and Trauma project, image courtesy of Dylan Thomas Centre; LGBTQIA flags, image courtesy of Cynon Valley Museum; image courtesy of Parc Howard Museum; participants in the Saving Treasures; Telling Stories project, image courtesy of Amgueddfa Cymru; p.18 image courtesy of Ceredigion Museum; p.19 Japanese flag, image courtesy of Cardiff Castle Museum; p.20 Museum of Butetown portraits ©Museum of Cardiff/Zaid Djerdi; p21/22 displays created by the youth panel for the Dippy exhibition at the National Museum Cardiff, images courtesy of Amgueddfa Cymru.

# AMGUEDDFEYDD YN NEWID BYWYDAU

Museums Association

**Museums Association**
42 Clerkenwell Close,
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800

#museumschangelives

www.museumsassociation.org/museums-change-lives